

Datganiad Gwariant Grant Datblygu Disgyblion Ysgol Abererch

Diben y Grant Datblygu Disgyblion yw gwella canlyniadau i ddysgwyr sy'n dod o deuluoedd incwm isel ac sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (hPYD). Disgwylir i ysgolion ddefnyddio'r cyllid hwn i'r eithaf i gyflwyno strategaethau cynaliadwy fydd yn arwain yn gyflym at welliannau i ddysgwyr sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Fel ysgol rydym am ddysgu o'r arferion gorau yng Nghymru a thu hwnt trwy:

1. gynllunio ymyriadau sy'n canolbwyntio ar wella cyrhaeddiad plant o gefndiroedd difreintiedig, ac sy'n nodi'n glir yr hyn a ddisgwylir gan yr ymyriad, gan fonitro cynnydd disgyblion yn gyson a gwerthuso effeithiolrwydd yr ymyriad.
2. integreiddio cynlluniau ar gyfer defnyddio'r GDD i'n Cynllun Datblygu Ysgol, gan selio arferion ar dystiolaeth dda a'u cynnwys fel rhan o strategaeth ysgol gyfan.
3. gydbwysu ymyriadau ysgol gyfan ac ymyriadau wedi'u targedu er mwyn sicrhau bod pob dysgwr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cael budd fel unigolyn a bod yr ysgol gyfan yn meithrin ei gallu i helpu pob dysgwr i gyflawni ei botensial llawn.

Yn 2018-19 rhoddwyd i Ysgol Abererch ddyraniad Grant Datblygu disgyblion o £9250

Yn Ysgol Abererchmae gennym gynllun cynhwysfawr, sydd wedi'i gytuno a'i fonitro gan Awdurdod Lleol Gwynedd a GwE, i hyrwyddo cynnydd a chael gwared ar rwystrau i ddysgu i fyfyrwyr sy'n gymwys ar gyfer y cyllid hwn.

Rydym wedi defnyddio'r cyllid sydd ar gael i:

- dargedu ymyrraeth i hyrwyddo lles a medrau allweddol disgyblion
- gefnogi teuluoedd i sicrhau bod eu plant yn cael y cyfleoedd i fynychu darpariaethau hanfodol gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol
 - ariannu staff cynorthwyol am 10 awr yr wythnos i ddarparu sesiynnau ymyrraethau llythrennedd megis Tric a Chlic a Cychwyn Eto.
- Uwch-sgilio cymorthyddion fel eu bod yn medru cyflwyno rhaglenni ymyrraeth. Talu costau hyfforddiant.

Nid yw'n briodol i'r ysgol gyhoeddi ei chynllun manwl oherwydd y perygl y gellid adnabod unigolion.